# Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2022

## Canlyniadau craidd: Pecyn sleidiau Cymru

# Cyflwyniad




## Cynnwys yr holiadur

- **Y chweched arolwg yn y gyfres eilflwydd hon – a'r ail i gynnwys Safbwyntiau'r Cyflogwr.**
- **Mae'r pecyn sleidiau hwn yn canolbwyntio ar y meysydd craidd a ganlyn o'r arolwg:**
  - Recriwtio a swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau
  - Bylchau sgiliau yn y gweithlu cyfredol
  - Hyfforddiant a datblygiad y gweithlu

# Cyfweliadau a gyflawnwyd

| | Poblogaeth | Nifer y cyfweliadau | Modiwl A | Modiwl B | Modiwl C | Modiwl D |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 87,900 | 4,825 | 1,239 | 1,256 | 1,168 | 1,153 |
| **Fesul rhanbarth** | | | | | | |
| Gogledd Cymru | 21,600 | 1,193 | 294 | 320 | 286 | 288 |
| Canolbarth Cymru | 9,800 | 694 | 190 | 175 | 166 | 162 |
| De Ddwyrain Cymru | 36,600 | 1,911 | 481 | 507 | 449 | 471 |
| De Orllewin Cymru | 20,000 | 1,027 | 274 | 254 | 267 | 232 |
| Canolbarth/De Orllewin Cymru | 29,800 | 1,721 | 464 | 429 | 433 | 394 |

Mae pob ffigur a gyflwynir yn y pecyn sleidiau hwn yn agored i led gwall. Gyda lefel hyder o 95%, uchafswm y lled gwall yw un pwynt canran ar y lefel gyffredinol, a rhwng 2 a 4 pwynt canran fel arfer ar draws is-grwpiau'r rhanbarth.

Cymerwyd y cyfrifiadau poblogaeth o Gofrestr Rhyngadrannol o Fusnesau (IDBR) y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac maent wedi eu talgrynnu i'r cant agosaf.

# Cyfweliadau a gyflawnwyd


| Fesul sector | Poblogaeth | Nifer y cyfweliadau | Modiwl A | Modiwl B | Modiwl C | Modiwl D |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector Cynradd a Chyfleustodau | 9,800 | 372 | 91 | 97 | 103 | 80 |
| Gweithgynhyrchu | 4,400 | 322 | 86 | 80 | 76 | 80 |
| Adeiladu | 8,800 | 322 | 71 | 87 | 77 | 84 |
| Cyfanwerthu a Manwerthu | 16,400 | 1,010 | 283 | 246 | 233 | 247 |
| Gwestai a Bwytai | 9,800 | 552 | 141 | 148 | 132 | 131 |
| Trafnidiaeth a Storio | 2,900 | 178 | 45 | 41 | 46 | 46 |
| Gwybodaeth a Chyfathrebu | 2,100 | 76 | 20 | 21 | 13 | 20 |
| Gwasanaethau Ariannol | 1,400 | 58 | 10 | 14 | 22 | 12 |
| Gwasanaethau Busnes | 14,900 | 686 | 168 | 190 | 168 | 159 |
| Gweinyddiaeth Gyhoeddus | 1,300 | 61 | 13 | 15 | 13 | 20 |
| Addysg | 2,800 | 299 | 76 | 79 | 74 | 70 |
| Iechyd a Gwaith Cymdeithasol | 6,900 | 580 | 145 | 158 | 143 | 134 |
| Celfyddydau a Gwas. Eraill | 6,400 | 309 | 90 | 80 | 68 | 70 |

Mae pob ffigur a gyflwynir yn y pecyn sleidiau hwn yn agored i led gwall. Gyda lefel hyder o 95%, uchafswm y lled gwall yw un pwynt canran ar y lefel gyffredinol a rhwng 3 ac 13 pwynt canran fel arfer ar draws is-grwpiau’r sector.


Cymerwyd y cyfrifiadau poblogaeth o Gofrestr Rhyngadrannol o Fusnesau (IDBR) y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac maent wedi eu talgrynnu i’r cant agosaf.

# Poblogaeth yr arolwg: maint y sefydliad

### % o’r holl sefydliadau





### % o’r holl gyflogaeth




Nifer y gweithwyr cyflogedig: 2 i 4 | 5 i 24 | 25 i 49 | 50 i 99 | 100 i 249 | 250+

Ffynhonnell: Cofrestr Busnes Rhyng-adrannol (IDBS) y Swyddfa Ystadegau Gwladol

# Poblogaeth yr arolwg: sector




Ffynhonnell: Cofrestr Busnes Rhyng-adrannol (IDBS) y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Sept 2022


# Prif ddiffiniadau


| | |
|---|---|
| **Sail y sefydliad** | Mae'r cyfrannau wedi eu seilio ar y nifer o sefydliadau, sydd wedi eu diffinio yma fel un o leoliadau'r sefydliad, lle mae o leiaf ddau berson yn gweithio. |
| **Sail cyflogaeth** | Mae'r cyfrannau wedi eu seilio ar y nifer cyfan o weithwyr cyflogedig a pherchnogion sy'n gweithio ar draws sefydliadau. |

| | Swyddi gwag | Swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau | Bylchau sgiliau |
|---|---|---|---|
| **Amlder** | Y gyfran o sefydliadau sy'n adrodd am o leiaf un swydd wag | Y gyfran o sefydliadau sy'n adrodd am o leiaf un swydd wag lle'r oedd prinder sgiliau (h.y. swyddi gwag yr adroddir eu bod yn anodd eu llenwi am nad oes gan yr ymgeiswyr y sgiliau, y cymwysterau neu'r profiad perthnasol) | Y gyfran o sefydliadau gydag o leiaf un gweithiwr cyflogedig y mae'r cyflogwr yn ystyried nad yw'n gwbl hyfedr yn ei rôl |
| **Dwysedd** | Swyddi gwag fel cyfran o'r holl gyflogaeth | Swyddi gwag gyda phrinder sgiliau fel cyfran o'r holl swyddi gwag | Y nifer o staff yr adroddwyd nad ydynt yn gwbl hyfedr fel cyfran o'r holl gyflogaeth |

# Recriwtio a swyddi gwag lle’r oedd prinder sgiliau

# Dulliau recriwtio a ddefnyddiwyd yn y 12 mis diwethaf





| ALLWEDD | DULL RECRIWTIO BRAS |
|---|---|
| A | Lledaenu'r gair yn unig |
| B | Unrhyw Gyfryngau Cymdeithasol |
| C | Unrhyw Adnodd Allanol |
| D | Unrhyw Adnodd Mewnol |
| E | Adnoddau Allanol yn Unig |
| F | Adnoddau Mewnol yn Unig |
| G | Dull Unigol |


*Sylfaen 2022: Yr holl gyflogwyr gyda swyddi gwag ym Modiwl D (821); 2019 (1,138)*

# Amlder a dwysedd a nifer y swyddi gwag dros amser




*Sylfaen: Yr holl sefydliadau (2013: 5,996 ; 2015: 6,027 ; 2017: 5,913 ; 2019: 6,773 ; 2022: 4,825)*

# Amlder a dwysedd y swyddi gwag fesul rhanbarth





| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 58,900 | 13,400 | 3,700 | 29,700 | 12,100 | 15,800 |

Nifer y swyddi gwag a adroddwyd (2022)


*Sylfaen: Yr holl sefydliadau: (2022: 4,825; 2019: 6,773; 2017: 5,913). Mae meintiau sylfaen rhanbarthol 2022 yn amrywio o 694 yn y Canolbarth i 1,911 yn Ne Ddwyrain Cymru .*

# Dwysedd y swyddi gwag fesul sector





*Sylfaen: Yr holl sefydliadau: (2022: 4,825; 2019: 6,773) Mae meintiau sylfaen 2022 yn amrywio o 58 mewn Gwasanaethau Ariannol i 1,010 mewn Cyfanwerthu a Manwerthu*

# Amlder, dwysedd a nifer y swyddi gwag lle mae prinder sgiliau dros amser




*Sylfaen: Yr holl sefydliadau (2013: 5,996 ; 2015: 6,027 ; 2017: 5,913 ; 2019: 6,773 ; 2022: 4,825)*

# Amlder a dwysedd swyddi gwag gyda phrinder sgiliau fesul rhanbarth





| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 20,600 | 4,900 | 1,300 | 10,300 | 4,200 | 5,400 |

Nifer y swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau (2022)


*Sylfaen: Yr holl sefydliadau: (2022: 4,825; 2019: 6,773; 2017: 5,913) Mae meintiau sylfaen rhanbarthol 2022 yn amrywio o 694 yng Nghanolbarth Cymru i 1,911 yn Ne Ddwyrain Cymru.*

# Dwysedd y swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau fesul sector




*Sylfaen: Yr holl sefydliadau gyda swyddi gwag: mae meintiau sylfaen 2022 yn amrywio o 55 yn y Sector Cynradd a Chyfleustodau i 305 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Nid yw Gwybodaeth a Chyfathrebu (15), Gwasanaethau Ariannol (16) a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (20) yn y siart oherwydd meintiau sylfaen isel.*

# Dwysedd y swyddi gwag lle’r oedd prinder sgiliau fesul galwedigaeth





| Rheolwyr | Pobl Broffesiynol | Pobl Broffesiynol Gyswllt | Gweinyddol ac Ysgrifenyddol | Crefftau Medrus | Gofalu, Hamdden, Gwas. Eraill | Gwerthiannau a Gwas. y Cwsmer | Gweithredwyr Peiriannau | Elfennol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 500 | 2,100 | 1,500 | 1,500 | 4,100 | 3,000 | 1,000 | 3,800 | 3,100 |

Nifer y swyddi gwag lle’r oedd prinder sgiliau (2022)


*Sylfaen: Yr holl sefydliadau gyda swyddi gwag yn y galwedigaethau penodol (mae meintiau sylfaen 2022 yn amrywio o 90 ar gyfer Rheolwyr i 384 ar gyfer Galwedigaethau Elfennol)*

# Sgiliau technegol ac ymarferol oedd yn brin ymysg ymgeiswyr





*Sylfaen: Pob un gyda swyddi gwag lle’r oedd prinder sgiliau (2022: 640; 2019: 498)*
*Dangosir y ffigurau fel canran o’r holl swyddi gwag lle’r oedd prinder sgiliau (nid canran o’r holl sefydliadau)*
*Nodwch: Nid oedd meddwl creadigol ac arloesol wedi ei gynnwys fel cod yn 2019.*

# Y sgiliau pobl a phersonol oedd yn brin ymysg ymgeiswyr




*Sylfaen: Yr holl swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau (2022: 640; 2019: 498)*
*Dangosir ffigurau fel canran o'r holl swyddi gwag lle'r oedd prinder sgliau a ddilynwyd (nid canran o'r holl sefydliadau)*


# Effaith swyddi gwag gyda phrinder sgiliau




*Sylfaen: Yr holl sefydliadau gyda swyddi gwag anodd eu llenwi sydd oll o ganlyniad i brinderau sgiliau (528)*


# Bylchau sgiliau yn y gweithlu presennol

# Amlder a dwysedd y bylchau sgiliau dros amser




*Sylfaen: Yr holl sefydliadau (2013: 5,996 ; 2015: 6,027 ; 2017: 5,913 ; 2019: 6,773 ; 2022: 4,825)*

# Amlder a dwysedd y bylchau sgiliau fesul rhanbarth





| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 51,500 | 11,800 | 3,400 | 26,800 | 9,500 | 12,900 |

Nifer y bylchau sgiliau (2022)


*Sylfaen: Yr holl sefydliadau 2022: Cymru:4,825; mae meintiau sylfaen rhanbarthol yn amrywio o 694 yng Nghanolbarth Cymru i 1,911 yn Ne Ddwyrain Cymru.*

# Dwysedd y bylchau sgiliau fesul sector




*Sylfaen: Yr holl sefydliadau 2022; mae'r meintiau sylfaenol yn amrywio o 58 mewn Gwasanaethau Ariannol i 1,010 mewn Cyfanwerthu a Manwerthu (2019 mae meintiau sylfaen yn amrywio o 109 mewn Gwein. Gyhoeddus i 1,442 mewn Cyfanwerthu a Manwerthu)*

# Dwysedd y bylchau sgiliau fesul galwedigaeth





| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4,500 | 2,000 | 3,100 | 4,500 | 5,400 | 8,900 | 8,100 | 5,900 | 9,100 |

Nifer y bylchau sgiliau (2022)


*Sylfaen: Pob sefydliad gyda staff yn y galwedigaethau penodol (Mae meintiau sylfaen 2022 yn amrywio o 639 i Bobl Broffesiynol Gyswllt i 4,597 i Reolwyr)*

# Prif achosion y bylchau sgiliau




*Sylfaen: Yr holl sefydliadau gyda bylchau sgiliau – hyd at 2 swydd wag a ddilynwyd (2022: 925; 2019: 1,209)*
*Mae'r ffigurau wedi eu dangos fel canran o'r holl fylchau sgilau (nid canran o'r holl sefydliadau)*


# Effaith y bylchau sgiliau




| | |
|---|---|
| Effaith fawr | 16% |
| Effaith fach | 52% |
| Dim effaith | 32% |


*Sylfaen: Pob sefydliad gyda bylchau sgiliau (2022: 925; 2019: 1,209)*

# Y sgiliau technegol ac ymarferol oedd angen eu gwella ymysg staff oedd â bylchau sgiliau




*Sylfaen: Yr holl sefydliadau gyda bylchau sgiliau – dilynwyd hyd at 2 alwedigaeth (2022: 925; 2019: 1,209)*
*Mae'r ffigurau wedi eu dangos fel canran o'r holl fylchau sgiliau (nid canran o'r holl sefydliadau)*
*Nodwch: Nid oedd meddwl creadigol ac arloesol wedi ei gynnwys fel cod yn 2019.*


# Y sgiliau pobl a phersonol oedd angen eu gwella ymysg staff gyda bylchau sgiliau




*Y sylfaen: Yr holl sefydliadau gyda bylchau sgiliau – dilynwyd hyd at 2 alwedigaeth (2022: 925; 2019: 1,209 )*
*Dangosir y ffigurau fel canran o'r holl fylchau sgiliau (nid canran o'r holl sefydliadau)*


# Hyfforddiant a datblygiad y gweithlu

# Y gyfran o gyflogwyr a ddarparodd hyfforddiant yn y 12 mis diwethaf fesul rhanbarth





*Sylfaen: Yr holl sefydliadau 2022: Cymru: 4,825; mae'r meintiau sylfaen rhanbarthol yn amrywio o 694 yng Nghanolbarth Cymru i 1,911 yn Ne Ddwyrain Cymru.*

# Y gyfran o gyflogwyr a ddarparodd hyfforddiant yn y 12 mis diwethaf fesul sector




*Sylfaen: Yr holl sefydliadau 2022; mae'r meintiau sylfaen yn amrywio o 58 mewn Gwasanaethau Ariannol i 1,010 mewn Cyfanwerthu a Manwerthu*

# Y nifer a’r gyfran o staff a hyfforddwyd fesul rhanbarth





| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 787,000 | 188,000 | 48,800 | 379,800 | 170,500 | 219,300 |

Nifer y staff a hyfforddwyd (2022)


*Sylfaen: Yr holl sefydliadau 2022: Cymru:4,825; mae’r meintiau sylfaen yn amrywio o 694 yng Nghanolbarth Cymru i 1,911 yn Ne Ddwyrain Cymru.*

# Y nifer a'r gyfran o staff a hyfforddwyd fesul sector





*Sylfaen: Yr holl sefydliadau 2022; mae'r meintiau sylfaen yn amrywio o 58 mewn Gwasanaethau Ariannol i 1,010 mewn Cyfanwerthu a Manwerthu*

# Cyfran y staff a hyfforddwyd fesul galwedigaeth




*Sylfaen: Pob un sy'n hyfforddi ymhob galwedigaeth (ac eithrio'r data a fodelwyd) (Modiwl B) (mae meintiau sylfaen 2022 yn amrywio o 107 ar gyfer Pobl Broffesiynol Gyswllt i 580 ar gyfer Rheolwyr)*

# Y mathau o hyfforddiant a ddarparwyd




*Sylfaen: Pob sefydliad sy'n hyfforddi (2022: 3,421; 2019: 4,940)*


# Diwrnodau hyfforddi

| | Diwrnodau fesul person a hyfforddwyd | | | Cyfanswm y diwrnodau hyfforddi | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2017 | 2019 | **2022** | 2017 | 2019 | **2022** |
| Cymru | 6.2 | 5.1 | **6.8** | 4.4m | 4.2m | **5.3m** |
| Gogledd | 5.6 | 5.5 | **6.9** | 0.9m | 1.1m | **1.3m** |
| Canolbarth | 9.4 | 6.4 | **5.2** | 0.5m | 0.3m | **0.3m** |
| De Ddwyrain | 5.0 | 4.7 | **7.4** | 1.8m | 1.9m | **2.8m** |
| De Orllewin | 8.2 | 5.4 | **5.7** | 1.2m | 0.9m | **1.0m** |
| Canolbarth a De Orllewin (wedi'u cyfuno) | 8.5 | 5.6 | **5.6** | 1.7m | 1.2m | **1.2m** |

# Diwrnodau hyfforddi fesul sector

| | Diwrnodau fesul person a hyfforddwyd | | | Cyfanswm y diwrnodau hyfforddi (miloedd) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2017 | 2019 | **2022** | 2017 | 2019 | **2022** |
| Sector Cynradd a Chyfleustodau | 5.5 | 4.4 | **5.5** | 89 | 88 | **92** |
| Gweithgynhyrchu | 5.9 | 4.3 | **7.7** | 337 | 369 | **673** |
| Adeiladu | 7.9 | 8.4 | **6.6** | 235 | 275 | **167** |
| Cyfanwerthu a Manwerthu | 6.7 | 5.7 | **7.3** | 699 | 540 | **692** |
| Gwestai a Bwytai | 9.9 | 6.3 | **6.4** | 557 | 389 | **426** |
| Trafnidiaeth a Storio | 3.8 | 4.1 | **6.9** | 73 | 115 | **156** |
| Gwybodaeth a Chyfathrebu | 3.9 | 4.5 | **5.7** | 42 | 61 | **48** |
| Gwasanaethau Ariannol | 6.6 | 2.8 | **14.3** | 174 | 69 | **94** |
| Gwasanaethau Busnes | 5.1 | 4.9 | **5.9** | 381 | 515 | **703** |
| Gweinyddiaeth Gyhoeddus | 8.1 | 4.1 | **3.2** | 192 | 298 | **181** |
| Addysg | 5.9 | 4.9 | **5.2** | 560 | 433 | **475** |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 5.2 | 5.5 | **8.2** | 826 | 861 | **1,316** |
| Celfyddydau a Gwas. Eraill | 6.1 | 5.6 | **8.8** | 193 | 192 | **296** |

# Ecwilibriwm Hyfforddi: diddordeb y cyflogwyr mewn darparu mwy o hyfforddiant nag y gallent




*Nodwch: Mae’r cyflogwyr sy’n hyforddi a atebodd ‘Ddim yn gwybod’ (3%) wedi eu cynnwys yn y grŵp ‘Eisiau gwneud mwy o hyfforddiant’ yn y mesuriad terfynol


*Sylfaen: Pob sefydliad (4,825)*

# Hyfforddi a datblygu'r gweithlu - crynodeb

| | 2013 | 2015 | 2017 | 2019 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| **% o gyflogwyr sy'n hyfforddi** | 62% | 63% | 62% | 62% | 60% |
| **% o gyflogwyr sy'n hyfforddi tu allan i'r gwaith** | 47% | 49% | 47% | 45% | 36% |
| **% sydd *ddim ond* yn hyfforddi yn y gwaith** | 15% | 14% | 15% | 18% | 24% |
| **% o staff a hyfforddwyd dros y 12 mis diwethaf** | 62% | 64% | 58% | 65% | 63% |
| **Diwrnodau o hyfforddiant fesul person a hyfforddwyd** | 7.7 | 7.2 | 6.2 | 5.1 | 6.8 |
| **Cyfanswm y diwrnodau hyfforddi a ddarparwyd** | 5.6m | 5.4m | 4.4m | 4.2m | 5.3m |


# Prentisiaethau

# Cyfran y cyflogwyr sydd â phrentisiaethau neu sy'n eu cynnig




*Sylfaen: Pob sefydliad (Modiwl A) 2022: 1,239; mae'r meintiau sylfaen rhanbarthol yn amrywio o 190 yng Nghanolbarth Cymru i 481 yn Ne-ddwyrain Cymru. 2019: 1,704; mae'r meintiau sylfaen rhanbarthol yn amrywio o 192 yng Nghanolbarth Cymru i 746 yn Ne-ddwyrain Cymru. 2016: 1,997; mae'r meintiau sylfaen rhanbarthol yn amrywio 200 yng Nghanolbarth Cymru i 842 yn Ne-ddwyrain Cymru*


# Cyfran y cyflogwyr sydd â phrentisiaethau neu sy'n eu cynnig, fesul sector





*Sylfaen: Yr holl sefydliadau (Modiwl A): 2022: 1,239; 2019: 1,704; 2016: 1,997). Mae meintiau sylfaen 2022 yn amrywio o 45 mewn Trafnidiaeth a Storio i 283 mewn Cyfanwerthu a Manwerthu; Nid yw Gwybodaeth a Chyfathrebu (20), Gwasanaethau Ariannol (10) a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (13) yn y siart oherwydd meintiau isel y sylfaen.*

# Arferion Gweithio Perfformiad Uchel

# Arferion Gweithio Perfformiad Uchel




*Sylfaen: Yr holl sefydliadau ym Modiwl D (1,153).*

# Casgliadau

# Casgliadau

- Canfu Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2022 bod gan **fwy o gyflogwyr yng Nghymru swyddi gwag** (22% o'i gymharu â 15% yn 2019) **a soniwyd am fwy o swyddi gwag** (cynnydd o 44%). Roedd **gan gyfran uwch o gyflogwyr swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau (SGPS)** hefyd, yn dyblu o 5% i 10%. **Roedd yr SGPS yn fwy niferus hefyd** (20,600 o'i gymharu â 9,800 yn 2019). Canlyniad hyn oedd cynnydd yn y dwysedd SGPS (35% o'i gymharu â 24% yn 2019).
- Cafodd pob sector bron gyfradd uwch o heriau sgiliau wrth recriwtio yn 2022 o'i gymharu â 2019, a **chafwyd y cynnydd uchaf yn y sector Trafnidiaeth a Storio**. Fodd bynnag, gostyngodd y dwysedd SGPS o 20 pwynt canran yn y Sector Cynradd a Chyfleustodau.
- **Parhaodd SGPS yn her arbennig wrth recriwtio ar gyfer galwedigaethau'r Crefftau Medrus** (dwysedd SGPS o 51% o'i gymharu â 52% yn 2019), er bod dwysedd y SGPS wedi cynyddu ers 2019 ar gyfer pob math bron o alwedigaeth. Fodd bynnag, yr alwedigaeth gyda'r **dwysedd SGPS uchaf oedd galwedigaethau Gweithredwyr Peiriannau,** gyda'r cynnydd mwyaf ers 2019 (58% yn 2022 o'i gymharu â 18% yn 2019).
- Roedd pob cyflogwr bron (95%) oedd wedi profi SGPS yn dweud bod y rhain wedi cael effaith ar ei sefydliad. Yr effaith fwyaf cyffredin o SGPS oedd **cynnydd mewn llwythi gwaith i staff eraill** (87%). Roedd anawsterau wrth geisio cyflawni nodau gwasanaethau'r cwsmer a phrofi costau gweithredu uwch yn gyffredin hefyd.
- O ran heriau sgiliau mewnol, **roedd y gyfran o gyflogwyr a soniodd am fylchau sgiliau (14%) a'r gyfran o'r gweithlu gyda bylchau sgiliau (4.1%) wedi parhau'n weddol sefydlog o'i gymharu â 2019**.

# Casgliadau - 2

- Gan y cyflogwyr yn y **sectorau Gwasanaethau Busnes, Gwestai a Bwytai, a'r Celfyddydau a Gwasanaethau Eraill** yr oedd y dwysedd uchaf o fylchau sgiliau. Fesul galwedigaeth, **cafwyd y cynnydd mwyaf yn y dwyseddau bylchau sgiliau mewn Gofalu, Hamdden, Gwasanaethau Eraill (oedd â'r dwysedd bwlch sgiliau uchaf, sef 6.4%), a rolau Pobl Broffesiynol Gyswllt.**
- Achoswyd cyfran fawr o'r bylchau sgiliau, o leiaf yn rhannol, gan achosion dros dro, megis pobl oedd yn newydd i'r rôl ac oedd heb gwblhau eu hyfforddiant eto (81%). Yn debyg i'r SGPS, **cynnydd yn y llwythi gwaith oedd effaith fwyaf cyffredin y bylchau sgiliau**, ynghyd â chael costau gweithredu uwch, anawsterau'n cyflawni safon ansawdd ac anawsterau yn cyflwyno arferion gwaith newydd.
- Mae'r gyfran o gyflogwyr sy'n darparu hyfforddiant wedi parhau'n debyg i 2019 (60%), er bod **maint yr hyfforddiant yr oedd pob hyfforddai wedi ei dderbyn wedi cynyddu o 5.1 diwrnod i 6.8 diwrnod.** Yn gyffredinol, mae'r **gyfran o staff a hyfforddwyd wedi gostwng o 65% i 63%,** gyda'r gostyngiadau mwyaf mewn Gwasanaethau Ariannol (57%, i lawr o 85%) a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (57%, i lawr o 83%). Parhaodd y galwedigaethau Gofalu, Hamdden a Gwasanaethau Eraill i fod y rhai mwyaf tebygol o dderbyn hyfforddiant (89%).
- Yn gyffredinol, **roedd 17% o gyflogwyr naill ai'n cynnal prentisiaethau neu'n eu cynnig nhw.** Ystyriwyd hyn yn sylweddol is yng Nghanolbarth Cymru (9%) o'i gymharu â rhanbarthau eraill. Y sectorau oedd fwyaf tebygol o gynnig prentisiaethau oedd **Addysg (33%), Iechyd a Gofal Cymdeithasol (32%) ac Adeiladu (28%)**, a gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y gyfran oedd yn cynnig prentisiaethau mewn Trafnidiaeth a Storio (26% o'i gymharu â 5% yn 2019).
- **Yng Nghymru, ystyriwyd bod 9% o gyflogwyr yn gyflogwyr Gwaith Perfformiad Uchel;** roedd gan 82% bolisi cyfle cyfartal ar waith ac roedd 60% yn darparu hyfforddiant yn y gwaith neu du allan i'r gwaith.